

Wild About Gardens

#wildaboutgardens

wildaboutgardens.org.uk

# Dod â'n chwilod **yn ôl**

**Cyfle i ddarganfod chwilod y DU a sut gallwch chi eu helpu**

The Wildlife Trusts

RHS

Inspiring everyone to grow

# Chwilod gwych

Mae chwilod (o'r is-ddosbarth Coleoptera) yn cyfrif am fwy na thraean o'r holl rywogaethau hysbys ar y ddaear – mae hynny'n tua 400,000 yn fyd-eang. Yn y DU yn unig mae mwy na 4,000 o rywogaethau, a gallwch ddod o hyd iddynt ym mhob cynefin bron, drwy gydol y flwyddyn! Er y gall llond llaw fwyta eich planhigion, mae chwilod yn rhan hanfodol o ardd iach.

Nid yn unig mae chwilod i'w cael mewn amrywiaeth anhygoel o liwiau, meintiau a siapiau – ond hefyd maent yn ysglyfaethwyr pwysig, maent yn gweithredu fel bwyd i anifeiliaid mwy (fel draenogod ac adar), ac maent yn peillio ein blodau a'n cnydau. Maent hyd yn oed yn helpu i ailgylchu maethynnau, drwy fwyta a threulio planhigion a dychwelyd eu daioni yn ôl i'r pridd. Yn y llyfryn yma fe welwch chi rai o'r bygythiadau mae chwilod yn eu hwynebu, bydd cyfle i ddysgu am eu harferion rhyfedd, ac wrth gwrs, ffyrdd y gallwch chi helpu. Fe fyddwn ni'n chwalu ambell fyth hyd yn oed!

## Beth yw chwilen?

Mae chwilod yn bryfed gydag adenydd blaen caled, ond byddem yn maddau i chi am beidio â sylweddoli hyn gan eu bod yn aml i'w gweld yn cropian o gwmpas yn hytrach na hedfan. Mae cloriau'r adenydd yn diogelu'r ail bâr (ôl) o adenydd a'r enw ar y rhain yw 'elytra'.



## Chwilod doeddech chi ddim yn gwybod eu bod yn chwilod…

Nid oes gan bob chwilen y gair 'chwilen' yn ei henw. Dyma rai nad ydych chi wedi dyfalu sy'n perthyn yma efallai:



Gwiddon



Pryfed tân



Buchod coch cota



Ceffyl y cythraul


Weevil © Margaret Holland. Glow-worm © John Tyler. Ladybird © Jon Hawkins Surrey Hills Photography. Devil's coachhorse ©RHS

**Cover image: Cardinal beetle** © Penny Frith
**Ladybird** © Jon Hawkins Surrey Hills Photography



Wild About Gardens

## Taflen adnabod chwilod




*ddim yn frodorol i'r DU **Dim ond yn Ne Ddwyrain Lloegr mae chwilod corniog i'w canfod.

Illustration: Corinne Welch © Copyright Royal Society of Wildlife Trusts 2021

www.wildaboutgardens.org.uk

# Chwilod dan fygythiad

Yn anffodus, mae llawer o'n chwilod ni'n wynebu anawsterau, a dyma pam...

### 1 Colli cynefin

Mae'r ffordd rydym yn defnyddio ein tir yn y DU, o ffermio dwys i ddatblygiadau trefol, wedi arwain at grebachu ar gynefinoedd ar gyfer chwilod, gan ei gwneud yn anodd i lawer o boblogaethau oroesi. Ond drwy ddilyn y gweithgareddau yn y llyfryn yma gallwch greu mwy o lefydd i fyw ar gyfer einchwilod gwerthfawr!

### 2 Colli cynefinoedd cysylltiedig

Yn ogystal â mynd yn llai, mae'r cynefinoedd yn mynd yn fwy darniog hefyd, gyda llai o gyswllt rhyngddynt. Dyma pam mae ein gerddi ni'n gallu gwneud byd o wahaniaeth – nid yn unig maent yn gynefinoedd pwysig, ond gallant hefyd ddarparu coridorau i chwilod fynd drwyddynt nes dod o hyd i'r llecyn perffaith.

### 3 Newid yn yr hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd yn cael effaith ar bob bywyd gwyllt ac nid yw chwilod yn eithriad. Gall tymereddau'n cynhesu a chynefinoedd yn crebachu olygu bod chwilod yn ei chael yn anodd goroesi lle'r oeddent yn arfer ffynnu, ac wrth gwrs mae hyn yn achosi problemau i'r anifeiliaid a'r planhigion eraill sy'n dibynnu arnynt hefyd.

### 4 Plaladdwyr

Mae'r defnydd o blaladdwyr yn arwain at ddirywiad difrifol mewn llawer o infertebrata, gan gynnwys llawer o chwilod. Gall hyd yn oed plaladdwyr nad ydynt wedi'u bwriadu ar gyfer targedu chwilod eu niweidio neu eu lladd, felly mae'n bwysig osgoi eu defnyddio.



**Sexton beetle** © Derek Moore



# Opsiynau eraill yn lle defnyddio plaladdwyr yn eich gardd

1. I ddechrau arni, ceisiwch ddysgu cymaint ag y gallwch chi am y math o infertebrata a allai fwydo ar eich planhigion. Ystyriwch a ydynt wir yn fygythiad, neu a ydynt yn helpu i gyfrannu at ardd gytbwys, iach. Os nad yw cydfodolaeth yn bosib, mae llawer o ffyrdd o reoli ymwelwyr dieisiau a hefyd osgoi plaladdwyr sy'n gallu achosi niwed anfwriadol i chwilod a chreaduriaid eraill yn eich gardd.

2. Bydd goddef ychydig o ddail wedi'u cnoi ac ambell affid hyd yn oed yn annog gardd gytbwys lle nad yw'r difrod yn mynd allan o reolaeth.

3. Dylech annog ysglyfaethwyr naturiol fel chwilod ysglyfaethus ac infertebrata eraill, draenogod, adar a llyffantod drwy greu bwyd a chysgod iddynt yn eich gardd.

4. Plannwch y pethau cywir ar yr amser cywir – mae planhigion dan bwysau'n fwy tebygol o ildio i ddifrod.

5. Codwch a symud infertebrata sy'n cnoi eich cnydau chi ychydig mwy nag y byddech yn ei hoffi yn ystod y gwanwyn a'r haf; gall cadw llygad am wlithod a malwod ar ôl glaw fod o help hefyd!

I gael gwybod mwy am y bygythiadau mae chwilod yn eu hwynebu, sut i osgoi defnyddio plaladdwyr a chwynladdwyr, a hefyd ffyrdd eraill y gallwch chi helpu, lawrlwythwch ganllaw yr Ymddiriedolaethau Natur ar gyfer #GweithreduDrosBryfed: **www.wildlifetrusts.org/take-action-insects**



**Mint beetle** © Amy Lewis

# Ffeithiau rhyfeddol am chwilod

Mae gennym ni fwy na 60 o rywogaethau o **chwilod tail** yma ym Mhrydain ac, yn driw i'w henw, mae'r rhan fwyaf yn bwyta tail. Mae hyn yn eu gwneud yn rhan hanfodol o'r ecosystem, yn enwedig ar ffermydd, lle maent yn cadw'r pridd yn iach – mewn gwirionedd, amcangyfrifir eu bod yn arbed o leiaf £367 miliwn y flwyddyn i ddiwydiant gwartheg Prydain!

Mae **chwilod y merllys** a **chwilod lili** yn gollwng gwich fain pan maent dan fygythiad, ond efallai y byddant yn defnyddio'r wich yma i gyfathrebu gyda'i gilydd hefyd.



Mae'r **chwilen drwyngoch**, chwilen sydd ddim yn gallu hedfan, yn cael ei henw o'r hylif coch tebyg i waed sy'n dod allan o'i cheg pan mae dan fygythiad, a'r nod yw dychryn ysglyfaethwyr.

Os bydd **chwilod clec** yn troi drosodd, maent yn gwneud eu cefn yn fwa er mwyn creu tensiwn mewn colfach arbennig yn eu thoracs, sydd wedyn yn rhyddhau clec uchel. Mae'r glec yma'n taflu'r chwilen i'r awyr ar gyflymder o fwy na 2 fetr yr eiliad, gan ei helpu i ddod yn ôl ar ei thraed a dianc rhag niwed.

Pan mae **chwilod pot** benywaidd yn dodwy wyau, mae pob un wedi'i orchuddio gan gragen wedi'i chreu o'i thail. Unwaith mae'r wyau'n deor, mae'r larfa'n defnyddio eu tail eu hunain i wneud y 'pot' gwarchodol yma'n fwy, gan eu cadw'n gudd gobeithio rhag ysglyfaethwyr nes eu bod wedi tyfu i faint llawn.

**Click beetle** © Margaret Holland



# Chwilod a'ch gardd chi

Mae chwilod yn dod â chydbwysedd i'ch gardd

- Mae chwilod yn cefnogi llawer o fywyd yn yr ardd; er enghraifft, mae'r chwilen lili yn darparu bwyd ar gyfer tair gwenynen barasitoid sy'n bwydo y tu mewn i'w larfa.
- Mae llawer o chwilod daear yn bwydo ar amrywiaeth o infertebrata – o gynffonnau sbonc i gynrhon gwiddon y gwinwydd.
- Mae chwilod crwydr yn ysglyfaethwyr hanfodol: mae'r rhywogaeth Stenus gyda'i llygaid mawr yn gallu cerdded ar ddŵr a defnyddio darnau'r geg sy'n ymestyn i hela cynffonnau sbonc!
- Gall chwilod daear sy'n bwyta larfa pryfed tân ac yn hela malwod fod yn ddefnyddiol iawn, gan arbenigo mewn bwyta malwod.
- Mae chwilod dŵr yn ysglyfaethwyr pwysig hefyd: mae'r rhywogaethau llai yn bwyta larfa mosgitos ac mae'r rhywogaethau mwy yn gallu bwydo ar larfa gweision y neidr a phenbyliaid, gan helpu'r pwll i sicrhau cydbwysedd naturiol.

## Maen nhw'n glanhau hefyd!

Mae rhai chwilod fel cynrhon **chwilen y rhosod** yn helpu i glirio gwastraff planhigion marw, ac mae llawer yn helpu i ddadelfennu pren marw, gan gynnwys y **chwilen glec** fioled brin, sydd ond i'w gweld ar dri safle yn y DU.

Mae rhai, fel **chwilod croenysol**, yn gwledda ar weddillion olaf cnawd anifeiliaid marw, gan adael sgerbwd glân, ac mae chwilod claddu'n claddu anifeiliaid marw ac yn bwydo eu cynrhon ar y gweddillion sydd wedi'u hailchwydu!

Wedyn wrth gwrs, mae gennych chi'r **chwilod tail** gyda'u henw priodol sy'n bwydo ar wastraff anifeiliaid ac sydd i'w gweld yn fwyaf cyffredin mewn coetir neu ar dir amaethyddol.




**Dung beetle** © Vaughan Matthews


# Creu clawdd chwilod

Bydd arnoch angen y canlynol:


- Cerrig neu beipen gardd




- Uwch-bridd



- Berfa



- Rhaw




- Hadau glaswellt neu hadau dôl blodau gwyllt (gydag 80% o laswellt) neu dyweirch





Defnyddir cloddiau chwilod ar dir amaethyddol i roi hwb i amrywiaeth y pryfed yno ac i reoli plâu yn naturiol – ond gallwch adeiladu clawdd o'r fath yn eich gardd hefyd! Gan ychwanegu cynefin cysgodol a heulog, maent yn werthfawr mewn gerddi gwastad, gan ddarparu cartref ar gyfer llawer o infertebrata.


1. Dewiswch lecyn heulog ar gyfer eich clawdd chwilod (tua 1m o hyd yn ddelfrydol) a'i farcio gyda llinellau syth neu ar dro gan ddefnyddio cerrig neu beipen gardd.



2. Taenwch yr uwch-bridd yn wastad y tu mewn i'r marciau, gan sathru arno ar ôl pob haen o 10 i 15cm er mwyn cywasgu'r pridd.



3. Daliwch ati i adeiladu twmpath nes ei fod yn 30cm o uchder a lled o leiaf. Gall y top fod yn wastad iawn neu'n grwn.



4. Ar ôl i chi greu eich twmpath, ewch ati i hau eich hadau a'u gwasgu i lawr gyda chefn cribin. Os ydych chi'n defnyddio tyweirch, rhowch hwn dros y twmpath a'i wasgu i lawr yn gadarn.



5. Cofiwch roi dŵr i'ch clawdd mewn tywydd sych. Ar gloddiau wedi'u hadu, defnyddiwch chwistrell fân i osgoi erydu'r pridd.



6. Gadewch i'r glaswellt dyfu'n dal drwy gydol yr haf. Torrwch y glaswellt yn ôl ym mis Hydref i tua 5cm o uchder.



Cadwch lygad am fân-drychfilod – o forgrug prysur i chwilod brysiog, ceiliogod rhedyn a hyd yn oed gwenyn unigol bach!

Illustration: Corinne Welch © Copyright Royal Society of Wildlife Trusts 2021

www.wildaboutgardens.org.uk

# Creu gwrych marw

Bydd arnoch angen y canlynol:


- Menig gardd trwchus




- Naddion coediog ar ôl tocio coed, llwyni neu wrychoedd, gan gynnwys sawl cangen neu goesyn hir, trwchus



- Tociwr



- Gordd bren



- Bwyell fechan neu filwg



Mae'r pentyrrau strwythuredig yma o ganghennau a brigau'n ddefnyddiol i lawer o rywogaethau ond, wrth i'r deunydd bydru, mae'n creu cartref perffaith i chwilod! Gallech ddefnyddio eich 'gwrych' fel ffin i'r ardd, neu ddim ond i rannu rhan o'ch gardd neu'ch gofod gwyrdd. Dylai eich gwrych fod o leiaf 1.5m o hyd, tua hyd panel ffens.

1. Defnyddiwch y canghennau sythaf a chryfaf i ffurfio ffyn ar i fyny a chreu ongl ar un pen gan ddefnyddio bwyell fechan neu filwg. Mae ffyn gardd yn gweithio'n dda os nad yw eich canghennau'n ddigon trwchus.
2. Defnyddiwch yr ordd bren i wthio'r ffyn i'r ddaear bob 50cm, gyda'r blaen pig ar i lawr.
3. Codwch ail res o ffyn 30 i 50cm oddi wrth eich rhes gyntaf fel bod gennych chi ddwy res gyfochrog.
4. Plethwch y canghennau a'r tocion sy'n weddill i mewn ac allan o'r ffyn, neu ddim ond eu pentyrru yn y bwlch rhwng y ddwy res. Daliwch ati nes eich bod wedi adeiladu eich gwrych i uchder da.
5. Wrth i'r gwrych ddechrau dadelfennu dros amser, ychwanegwch ganghennau neu docion ato. Cadwch lygad am breswylwyr newydd yn eich gwrych marw!






Illustration: Corinne Welch © Copyright Royal Society of Wildlife Trusts 2021

www.wildaboutgardens.org.uk

# Blwyddyn ym mywyd …

## Buwch goch gota 7 smotyn




**Hydref – Ebrill:**
Mae buchod coch cota'n gaeafu yng nghanol coesynnau planhigion neu y tu mewn i dai weithiau, mewn cyflwr o gwsg tan y gwanwyn, pryd maent yn mentro allan i chwilio am fwyd

**Mai:**
Mae buchod coch cota gwryw a benyw yn paru mor aml â phosib gyda phartneriaid lluosog

**Mehefin – Gorffennaf:**
Mae benywod paru'n dodwy wyau yn agos at y safle paru ac wrth blanhigyn sydd â chyflenwad da o affidau. Mae'r rhain yn deor yn larfa, sy'n mynd drwy bedwar instar (cyfnod), gan ffurfio chwiler yn y diwedd


**Awst:**
Mae'r buchod coch cota'n dod allan o'r chwiler ac yn chwilio am fwyd

**Medi:**
Mae'r oedolion yn bwydo cyn cysgu dros y gaeaf o fis Hydref ymlaen



# Blwyddyn ym mywyd …

## Chwilen gorniog




Mae'r chwilen yma sydd mewn perygl yn treulio'r rhan fwyaf o'i bywyd o dan y ddaear fel larfa, gan fwydo ar bren sy'n pydru. Gall hyn bara am rhwng **tair a saith mlynedd!** Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgarwch uwch ben y ddaear yn digwydd yn ystod misoedd yr haf

**Mai – Mehefin:**
Ar ôl i'r chwiler drawsffurfio yn oedolyn, ac fel mae'r tywydd yn cynhesu, mae'r chwilod yn dod allan i'r wyneb ar ôl bod o dan y ddaear

**Mehefin – Gorffennaf:**
Yn ystod y gwanwyn a'r haf – ym mis Mehefin fel rheol – mae'r chwilod corniog gwryw yn torheulo, gan gynhesu'r cyhyrau cyn mynd i chwilio am gymar. Maen nhw i'w gweld yn aml yn hedfan yn araf gan suo'n isel.

**Gorffennaf:**
Ar ôl paru, mae'r benywod yn chwilio am wreiddiau coed marw i ddodwy eu hwyau, gan ddewis safle yn agos at ble daethant allan o'r ddaear yn aml

**Awst:**
Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o'r chwilod corniog sy'n oedolion wedi marw; eu hunig bwrpas yw paru a dodwy wyau. Fel rheol, dim ond am ychydig wythnosau, ar y mwyaf, maent yn goroesi, a bydd llawer yn byw am ddyddiau yn unig fel oedolion, yn ysglyfaeth yn aml i bïod neu wiwerod, neu'n cael eu taro gan geir yn anffodus.

# Gwneud bwced chwilod

Bydd arnoch angen y canlynol:

- Bwced, cafn neu gynhwysydd gwydn arall wedi'i uwchgylchu
- Cyllell grefft fechan
- Cerrig
- Naddion rhisgl a/neu ddail
- Boncyffion bach (a fydd yn ffitio yn eich cynhwysydd pan mae ar i fyny)
- Rhaw

Llenwch bwced gyda phren a dail sy'n pydru a gwnewch y cartref perffaith ar gyfer pob math o chwilod a phryfed eraill. Mae creu cynefin chwilod mewn hen gynhwysydd plastig yn golygu y gallwch ddod o hyd iddo eto yn hawdd i ychwanegu ato neu archwilio'r cynnwys (gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi popeth yn ôl yn ei le yn syth ar ôl archwilio).

Perffaith ar gyfer gerddi llai!

1. Torrwch dyllau cylch bach (tua 3cm o led) yn ddiogel yn ochrau a gwaelod y bwced er mwyn i chwilod allu mynd i mewn ac allan ohono.
2. Cloddiwch dwll ychydig mwy na'ch bwced a'i suddo yn y ddaear.
3. Rhowch gerrig mawr yng ngwaelod y bwced, wedyn rhowch foncyffion bychain ar i fyny ar y top.

Bydd y rhain yn pydru ac yn llecyn hyfryd i chwilod benyw ddodwy eu hwyau.

4. Llenwch weddill y bwced gyda naddion rhisgl a/neu ddail gardd, gan adael tua 10cm ar y top i'w lenwi gyda rhywfaint o bridd wedi'i gloddio o'r ddaear.
5. Rhowch foncyff neu ddau arall ar ben y pridd i ddenu chwilod – o'r top neu oddi tanodd!

Os yw'n well gennych chi beidio â defnyddio plastig, gallwch greu 'bwced' chwilod mewn twll yn y pridd.

www.wildaboutgardens.org.uk

Illustration: Corinne Welch © Copyright Royal Society of Wildlife Trusts 2021



# Chwilod dŵr

Mae chwilod dŵr yn gasgliad eithriadol amrywiol o bryfed. Mae pob un ohonynt yn byw mewn dŵr ar ryw adeg yn ystod eu cylch bywyd, ac mae tua 300 o rywogaethau yn y DU yn unig! Os oes gennych chi bwll bywyd gwyllt yn eich gardd, mae'n siŵr y bydd gennych chwilod dŵr hyd y lle. Beth am blymio i'w byd tanddwr...

## Adleoli, adleoli...

Gall chwilod dŵr hedfan, er mwyn gallu adleoli i gartref newydd os nad yw eu cartref presennol yn gwbl briodol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i lawer aros am ddiwrnod cynnes iawn cyn gallu symud, oherwydd fel arall nid yw eu cyhyrau hedfan yn gweithio!

## Magu yn y dŵr

Wrth baru o dan y dŵr, mae'r chwilen blymio fawr wrywaidd yn defnyddio padiau sugno ar ei thraed blaen i afael yn y fenyw, sydd â chloriau adenydd â rhigol dwfn sy'n helpu'r gwryw i ddal ei afael.

## Deifio pwll dwfn

Mae chwilod dŵr yn dod i fyny i wyneb y dŵr bob hyn a hyn i gael mwy o gyflenwad o aer sy'n cael ei storio o dan gloriau eu hadenydd. Meddyliwch amdano fel tanc deifio sgwba mewnol i'w galluogi i ddod o hyd i ysglyfaeth o dan y dŵr!

## Synhwyrau cryf

Mae chwilod bwgan yn gyffredin ar arwynebau pyllau, ac yn hawdd eu gweld gan eu bod yn ymgynnull mewn niferoedd mawr, gan gylchu'n wyllt ar draws y dŵr. Maen nhw'n eithriadol sensitif i fân donnau yn y dŵr – mae'r rhain yn helpu i'w harwain tuag at bryfed sydd wedi'u dal ar yr arwyneb, ac maent yn bwyta'r rhain wedyn!

### Ydi chwilod dŵr yn dda i fy mhwll i?

Mae chwilod dŵr yn rhan o ecosystem pwll iach. Mae llawer ohonynt yn ysglyfaethus a gallant helpu i gadw trefn ar niferoedd larfa mosgito, tra bydd rhywogaethau mwy, fel y chwilen blymio fawr, yn bwyta penbyliaid a physgod bach.



Whirligig beetle
© Chris Lawrence



Great diving beetle
© Jack Perks

# Mwy o ffyrdd o helpu chwilod yn eich gardd

Mae llawer o bethau y gallwch eu gwneud i helpu'r creaduriaid llai sy'n byw yn ein gerddi ni, a thrwy helpu chwilod rydych chi hefyd yn darparu ar gyfer bywyd gwyllt arall.

Chwiliwch am le ar gyfer pren marw yn eich gardd. Gall fod yn goeden farw neu wrthi'n marw sydd wedi'i gadael yn sefyll, ceudod mewn hen goeden, neu bentwr o hen stympiau a boncyffion.



Log pile © RHS

Mae pentyrrau o greigiau'n darparu cysgod yn ystod y dydd ar gyfer chwilod nosol, ac mae pentyrrau o ddail hefyd yn wych, gan fod llawer o rywogaethau'n hoffi dodwy eu hwyau mewn dail sy'n pydru



Rock pile © RHS

Ewch ati i greu casgliad o foncyffion mewn cornel gysgodol o'ch gardd i helpu i fwydo chwilod hoff o bren marw, fel y chwilen gorniog leiaf, y chwilen ryncorniog a'r chwilen hirgorn. Bydd hefyd yn darparu cartref ar gyfer chwilod ysglyfaethus ynghyd â llawer o infertebrata eraill ac amffibiaid hyd yn oed.



Pine longhorn beetle © RHS

Gorchuddiwch gasgenni dŵr a darparu llwybr allan o byllau ar gyfer chwilod sy'n byw ar y tir, fel traeth cerrig mân. Os gwelwch chi chwilen sy'n edrych yn farw mewn dŵr, tynnwch hi allan – maen nhw'n adfywio yn aml!



Water butt © RHS

Ewch ati i greu tomen gompost. Bydd yn llawn pob math o greaduriaid fel chwilod y rhosod (i'r rhai digon lwcus!) mewn dim o dro.



Compost

**Am fwy fyth o ffyrdd o gymryd rhan gyda #GweithreduDrosBryfed, ewch i www.wildlifetrusts.org/action-for-insects**



Thick-legged flower beetle © RHS



Long grass © RHS

Ewch ati i dyfu blodau agored llawn neithdar ar gyfer chwilod – pryfed peillio cyntaf y byd efallai. Efallai y bydd chwilod fel chwilod milwr, chwilod coesdew y blodau, chwilod hirgorn a chwilod y bwm yn ymweld â'r safle.

Newidiwch laswellt artiffisial am laswellt real fel bod gan chwilod le i fyw, a cheisiwch leihau faint o ddecin a phalmant sydd gennych chi yn eich gardd.



Delay cutting back © RHS

Peidiwch â thorri eich gwelyau blodau yn ôl tan ddiwedd y gaeaf. Bydd coesynnau'r planhigion marw'n cael eu defnyddio gan chwilod sy'n gaeafgysgu ac infertebrata eraill fel pryfed cop.



Rosemary beetle © RHS

Ceisiwch oddef difrod gan chwilod sy'n bwydo ar ddail. Er enghraifft, gall chwilod rhosmari a mintys ymddangos yn eich gardd berlysiau, ond pur anaml fyddant yn achosi difrof difrifol ac maent yn ychwanegu bywiogrwydd a lliw!

## Amdanom Ni

Dechreuodd yr Ymddiriedolaethau Natur a'r RHS ar gynllun Gwyllt Am Erddi er mwyn dathlu garddio bywyd gwyllt ac i annog pobl i weithredu dros fyd natur. Yn ystod y 50 mlynedd diwethaf, rydym wedi gweld dirywiad mewn dwy ran o dair o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid y DU. Mae llawer o'n hymwelwyr gardd cyffredin – gan gynnwys draenogod, adar y to a drudwy – dan fygythiad cynyddol, ond gyda'i gilydd gall gerddi wneud byd o wahaniaeth. I gael gwybod mwy am arddio bywyd gwyllt ac i gael mwy o adnoddau, ewch i'n gwefan ni. Gallwch hefyd gofrestru ar gyfer ein cylchlythyr misol i dderbyn diweddariadau a syniadau ar gyfer popeth Gwyllt Am Erddi.

**wildaboutgardens.org.uk**

**facebook.com/groups/WildAboutGardens**

### Yr Ymddiriedolaethau Natur

Mae gan yr Ymddiriedolaethau Natur nod o adfer o leiaf traean o dir a moroedd y DU ar gyfer byd natur erbyn 2030. Rydym yn credu y dylai pawb, ym mhob man, gael mynediad i fyd natur a'r holl bleser a'r manteision iechyd mae'n eu cynnig i ni. Dim ots ble rydych chi yn y DU, mae Ymddiriedolaeth Natur yn eich ardal chi sy'n ysbrydoli pobl am fyd natur ac yn sefyll dros fywyd gwyllt a llefydd gwyllt yr ardal. Rydym yn gofalu am 2,300 o warchodfeydd natur amrywiol a hardd ac yn gweithio gydag eraill i reoli eu tir gan feddwl am fyd natur hefyd. Helpwch ni i ddod â'n bywyd gwyllt toreithiog yn ôl drwy ddod yn aelod o'ch Ymddiriedolaeth Natur heddiw.

**E-bost:** enquiry@wildlifetrusts.org
**Gwefan:** wildlifetrusts.org

@WildlifeTrusts
/wildlifetrusts
thewildlifetrusts
/thewildlifetrusts

Rhif Cofrestru'r Elusen 207238

### Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol

Ers dros 210 o flynyddoedd, mae'r RHS wedi bod yn rym y tu ôl i arddio yn y DU. Ein nod ni yw cyfoethogi bywyd pawb drwy blanhigion, a gwneud y DU yn lle gwyrddach a harddach. Rydym yn credu y dylai pawb ym mhob pentref, tref a dinas elwa o dyfu – ar gyfer cymunedau cryfach, iachach a hapusach. Mae ein gwaith ym maes addysg, gwyddoniaeth a chymunedau yn bosib diolch i gefnogaeth hael ein hymwelwyr, ein haelodau, ein partneriaid, cyfranwyr a noddwyr. Gyda'ch help chi gallwn ffrwyno pŵer garddwriaeth, un garddwr ar y tro.

**E-bost:** communities@rhs.org.uk
**Gwefan:** rhs.org.uk

@The_RHS
/rhshome
the_rhs
rhshome
/RoyalHorticulturalSo

Rhif Cofrestru'r Elusen 222879/SC038262

Lawrlwythwch ganllaw #GweithreduDrosBryfed yr Ymddiriedolaethau Natur yn **www.wildlifetrusts.org/take-action-insects**